



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

GIG Cymru
Plant sy'n
Derbyn Gofal

FFRAMWAITH
ASESIAD
IECHYD



Mae Fframwaith Asesiad Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal GIG Cymru yn darparu arferion da ar gyfer Byrddau Iechyd yn gweithio gyda phlant sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Datblygwyd y fframwaith yn broffesiynol ar y cyd â byrddau iechyd ar draws y wlad. Y nod yw cynnal dull cyson o gefnogi'r broses asesu iechyd ac ansawdd yr asesiad iechyd a'r adroddiad ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc. Yn ogystal, mae'r fframwaith yn cefnogi datblygiad pecyn adnoddau er hwyluso archwiliadau ansoddol o'r broses asesu iechyd ar gyfer pob bwrdd iechyd ar draws GIG Cymru.

Dyddiad: Mehefin 2020


Dyddiad adolygu: Mehefin 2022

NST@wales.nhs.uk

Darluniau gan Laura Sorvala. Seiliwyd ar ddigwyddiad byw a gynhaliwyd yn Saesneg.

Cynnwys

1	Cyflwyniad a Diben y Fframwaith	4
2	Cyfarwyddyd Arferion er Cwblhau Asesiadau Iechyd	6
2.1	Cyflwyniad	6
2.2	Anghenion Iechyd Plant/Pobl Ifanc yn derbyn gofal (LAC/YP)	6
2.3	Proses Adolygu Annibynnol	7
2.4	Asesiadau Iechyd	7
2.5	Trefnu Apwyntiad	7
2.6	Asesiadau Iechyd Cychwynnol	8
2.7	Adolygu Asesiadau Iechyd	8
2.8	Cyn yr Asesiad Iechyd	9
2.9	Os na fydd person ifanc yn mynychu apwyntiad (DNA) neu os nad yw'n cael ei gludo i apwyntiad	11
2.10	Asesiad Iechyd - Canllawiau Cynnwys	12
2.11	Monitro Cydymffurfriad ac Ansawdd	22
3	Cyfeiriadau	23
	Atodiad 1	24
	Atodiad 2	30
	Atodiad 3	33



- Mae angen Gwasanaethau Lles Emosiynol
Llai o gyffuriau, mwy o hyn!
Hunanofal ac Yoga
Arlunio
Awyr agored

1

Cyflwyniad a Diben y Fframwaith

Bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn rhannu llawer o'r un problemau a risgiau iechyd â'u cyfoedion, ond yn aml i raddau mwy ac yn rhannol oherwydd effaith tlodi, trefniadau magu plant gwael, dulliau byw anhrefnus neu esgeulustod cyn iddynt gyrraedd y system ofal (Merredew a Sampeys 2015).

Ar hyn o bryd mae 6,846 plentyn yn derbyn gofal yng Nghymru (Mawrth 2019). Mae'n cynrychioli grŵp sy'n newid yn gyson gyda 2,125 plentyn yn dechrau derbyn gofal a 1,678 plentyn yn gadael gofal yn 2019. Er bod profiadau'r plant hyn yn gwella, mae plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn wynebu canlyniadau gwaeth ym meysydd addysg, cymdeithasol ac iechyd.

Mae asesiad iechyd statudol plant sy'n derbyn gofal yn darparu rhyngwyneb hanfodol gyda gweithiwr iechyd arbenigol a chyfle i nodi a thrin anghenion iechyd, a chael effaith bositif ar ganlyniadau iechyd.

Mae cynnal asesiad iechyd safon uchel o blant sy'n derbyn gofal yn hanfodol er gwella canlyniadau iechyd dros y byr a hir dymor.

Mae'r Fframwaith Asesiad Iechyd Plant sy'n derbyn gofal yn darparu arferion da ar gyfer byrddau iechyd yn gweithio gyda phlant sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn cynnwys rhai a glustnodwyd i'w mabwysiadu.

Datblygwyd y fframwaith yn broffesiynol ar y cyd â byrddau iechyd ar draws y wlad. Y nod yw cynnal dull cyson o gefnogi'r broses Asesu Iechyd ac ansawdd yr asesiad iechyd ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc. Yn ogystal, mae'r fframwaith yn cefnogi datblygiad pecyn adnoddau er galluogi archwiliadau ansoddol o'r broses asesu iechyd ar gyfer pob bwrdd iechyd ar draws GIG Cymru.



Mae cynnal asesiad iechyd safon uchel o blant sy'n derbyn gofal yn hanfodol er gwella canlyniadau iechyd dros y byr a hir dymor.



Plant angen help sylweddol nid yn derbyn cymorth penodol: Bylchau yn y gwasanaeth!



- Penderfyniadau am ofal person ifanc yn gallu cwmpo rhwng asiantaethau
- Anghenion plant yn ganolog (nid rhywbeth ychwanegol)
- Cael hyd i a defnyddio gwasanaethau yn anodd!
- Rwyf am gysylltu ag aelodau'r teulu!
- Rhaid gwrando ar anghenion pobl ifanc

- Nid oes drws anghywir
- Diwallu anghenion cymhleth heb gael diagnosis Mae angen cymorth parhaus
- App 'cynllunio' Gwybodaeth Cyngor
- Datblygwyd gan y Comisiynydd Plant yng Nghymru ar y cyd â phobl ifanc!

Datblygwyd y cyfarwyddyd hwn er mwyn helpu gweithwyr iechyd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Dylai'r Asesiad Iechyd a'r adroddiad wneud y dilynol:

- ★ Coladu'r holl wybodaeth iechyd sydd ar gael
- ★ Nodi ffynhonnell yr wybodaeth
- ★ Nodi elfennau risg y plentyn
- ★ Ystyried effaith a chanlyniadau'r asesiad
- ★ Sicrhau bod yr holl fesurau'n rhai penodol, mesuradwy a pherthnasol, ac yn destun terfynau amser
- ★ Crynhoi a chofnodi'r holl wybodaeth ac argymhellion iechyd.

Dylai'r Cynllun Gofal Iechyd a baratoir drafod yr holl anghenion a nodwyd er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Bydd nifer fach o blant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gadael wrth gael eu mabwysiadu (Cymru 309 yn 2019). Er mwyn rhannu gwybodaeth, paru a chynnal gofal, rhaid cynnal asesiad iechyd safonol er hwyluso paratoi adroddiad mabwysiadu (Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu [Cymru] 2005). Dylai asesiadau iechyd statudol barhau tan i'r unigolyn gael ei fabwysiadu, gyda'r arferion gorau yn parhau i fonitro iechyd tan y caniateir y gorchymyn mabwysiadu.

2 Cyfarwyddyd er Cwblhau Asesiadau Iechyd

2.1 Cyflwyniad

Mae asesiad iechyd plentyn neu berson ifanc yn asesiad holistaidd o anghenion corfforol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn ogystal mae'n cynnwys elfennau addysg a hyrwyddo iechyd. Nid yw'n ddigwyddiad ar wahân, ond yn rhan o broses gofal parhaus sy'n cynnwys monitro a hyrwyddo iechyd y plentyn.

Mae system asesu plant yn derbyn gofal yn darparu proses asesu iechyd statudol sy'n cynnig asesiad iechyd rheolaidd i bob plentyn a pherson ifanc 0 -18 oed sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, rhaid trefnu prif weithiwr iechyd gyda chyfrifoldeb am sicrhau y cynhelir yr asesiadau iechyd ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal, cydlynu'r gofal iechyd a dirprwyo a dilyn i fyny camau sy'n rhan o'r broses. Byddant yn gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer gofaluwr a gweithwyr iechyd eraill. Bydd prif weithiwr iechyd pob plentyn sy'n derbyn gofal yn Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol, Pediatriydd neu'n Nyrs LAC Arbenigol.

2.2 Anghenion Iechyd Plant/Pobl Ifanc yn Derbyn Gofal (LAC/YP)

Mae plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn un o'r grwpiau sy'n dioddef ynysu cymdeithasol fwyaf o fewn cymdeithas ac o'r herwydd yn wynebu anghenion iechyd sylweddol uwch na phlant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg (Merredew a Sampeys 2015).

Bydd pob plentyn sy'n dechrau derbyn gofal yn destun asesiad iechyd cychwynnol gan bediatrydd, neu o fewn rhai ardaloedd gan weithiwr iechyd wedi derbyn hyfforddiant addas yn unol â'r Fframwaith Rolau Rhyng-golegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: Gwybodaeth, Sgiliau a Galluoedd staff gofal iechyd (RCPCH ac RCN 2015). Bydd yn arwain at ddatblygu cynllun iechyd, gyda'r prif weithiwr iechyd yn sicrhau dilyn y camau addas.

Trefnir adolygiad asesiad iechyd bob chwe mis yn achos plant 0 - 5 oed a bob blwyddyn ar gyfer plant 5 - 18 oed. Cynhelir gan weithwyr iechyd gyda'r hyfforddiant addas yn unol â'r Fframwaith Rolau Rhyng-golegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (2015). Bydd pob plentyn yn derbyn gofal sy'n byw mewn ardal bwrdd iechyd yn cael asesiad iechyd dim ots pa awdurdod lleol y dechreuodd ynddo. Bydd pob plentyn yn derbyn gofal sy'n byw tu allan i'r ardal yn destun cais am asesiad iechyd gan dîm iechyd LAC yr awdurdod lleol ble bydd y plentyn yn byw.

- Sut i gefnogi plant?
- Lleisio barn pobl ifanc!
- Ystyried triniaethau posibl!



2.3 Proses Adolygu Annibynnol

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn destun adolygiadau statudol annibynnol o'u lleoliad. Arweinir gan swyddog adolygu annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro cynllun gofal y plentyn. Dylai'r cynllun iechyd gefnogi cynllun gofal y plentyn a rhaid ystyried anghenion iechyd mewn pob adolygiad. Swyddogion adolygu annibynnol sy'n gyfrifol am nodi unrhyw fesurau iechyd i'w cymryd yn ôl y cynllun iechyd yn unol â chyfarwyddyd cenedlaethol. *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 6 - Cod Arferion (Plant sy'n derbyn gofal/mewn llety).*

2.4 Asesiadau Iechyd

Mae Rhan 6 - Cod Arferion, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan:

Rhaid i'r awdurdod lleol drefnu bod meddyg neu nyrs cofrestredig yn cynnal asesiad cychwynnol o gyflwr iechyd y plentyn a darparu adroddiad ysgrifenedig o'r asesiad. Rhaid cyfeirio'n benodol at iechyd meddwl y plentyn.

Nod yr asesiad iechyd yw darparu proffil iechyd cynhwysfawr o'r plentyn, gan nodi materion a fethwyd yn y gorffennol er mwyn gwella iechyd corfforol a meddyliol, a llesiant, a darparu sail i fonitro datblygiad y plentyn yn y dyfodol. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru, a atgyfnerthwyd gan y Mesur Hawliau Plant & Pobl Ifanc (2011) yn datgan bod hawl gan blant a phobl ifanc i leisio barn am y penderfyniadau sy'n eu heffeithio.

Egwyddorion allweddol asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal:

- ★ Dylai'r plentyn unigol fod yn rhan ganolog o'r broses asesu iechyd, cynllunio, trin ac adolygu.
- ★ Dylid rhoi cyfle i bob plentyn neu berson ifanc fynegi eu barn neu bryderon ar bob cam, a dylid gwrando arnynt. Dylai gweithwyr iechyd gynnal asesiadau iechyd mewn ffordd fydd yn galluogi ac awdurdodi plant a phobl ifanc i dderbyn cyfrifoldeb am iechyd eu hunain.
- ★ Dylai asesiadau iechyd a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod yn sensitif i oedran, rhyw, anabledd, hil, diwylliant ac iaith.
- ★ Os nad Saesneg yw iaith gyntaf plant, dylent gael cyfle i gael asesiad iechyd yn yr iaith o'u dewis.

2.5 Trefnu Apwyntiad

Yn ôl cyfarwyddyd statudol rhaid cynnal asesiad iechyd cychwynnol a darparu adroddiad ysgrifenedig cyn bydd awdurdod lleol yn gosod plentyn. Neu, os na fydd hynny'n ymarferol, erbyn adolygiad cyntaf o gynllun gofal y plentyn.

2.6 Asesiadau Iechyd Cychwynnol

Bydd Tîm Gweinyddol LAC (Plant sy'n Derbynn Gofal) yn derbyn hysbysiad o blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, gan ddechrau'r broses o drefnu neu wneud cais am asesiad iechyd cychwynnol. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r awdurdodau lleol hysbysu staff LAC o fewn 5 diwrnod gwaith.

Trefnir apwyntiadau asesiadau iechyd cychwynnol gan Dîm Iechyd LAC, gyda'r nod o gynnig apwyntiad o fewn 20 diwrnod gwaith yn barod ar gyfer yr adolygiad LAC cyntaf. Ni fydd angen cynnal asesiad os cynhaliwyd asesiad iechyd o fewn y 3 mis cyn dechrau'r lleoliad. Bydd y gweithiwr iechyd yn cysylltu â'r gofawr a'r gweithiwr cymdeithasol ac yn gofyn am gofnodion iechyd y plentyn a nodiadau'r meddyg teulu cyn yr apwyntiad. Dylai fynnu'r cymeradwyaethau addas cyn gwneud unrhyw gyfeiriad at Dîm Iechyd LAC.

2.7 Adolygu Asesiadau Iechyd


Yr awdurdod lleol sy'n dal yn gyfrifol am ddechrau'r broses asesu iechyd statudol, ond am resymau ymarferol bydd yn help i'r plentyn os bydd arweinydd iechyd proffesiynol yn gweithio fel rhan o'r tîm aml asiantaeth er mwyn ei atgoffa os na fydd yn darparu'r gwaith papur yn brydlon.

Bydd tîm iechyd LAC yn anfon ceisiadau i adolygu asesiadau iechyd pan fydd yn eu derbyn a hefyd yn dilyn proses o glustnodi'r asesiadau i'w cynnal yn ystod pob mis calendr.

Yn ddelfrydol dylid trefnu apwyntiadau asesiadau iechyd o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw er mwyn sicrhau na fydd y system yn destun oedi oherwydd gwylliau staff neu ganslo apwyntiadau. Rhaid eu cynnal ar amser ac mewn lleoliad cyfleus i'r plant a'u gofawr.

Dylid cynnwys gwybodaeth gan bawb sy'n helpu i ofalu am y plant.

Dylai adolygu asesiadau plant oedran ysgol ymyrryd cyn lleied â phosibl â diwrnod ysgol y plentyn, gan ystyried ar bob amser yr angen i gael oedolyn addas yn bresennol.



- Pobl mewn gofal o dan fwy o risg o PTSD - camdriniaeth yn gyffredin
- Cofio trawma
Ystyr trawma
Ymdopi â thrawma (neu ei osgoi)

- Beth allwn gefnogi: Prosesau gwybyddol
- Gweithio pwrpasol yn gwneud gwahaniaeth hir dymor!
- Pryd yw sgrinio PTSD yn addas?

2.8 Cyn yr Asesiad Iechyd

Asesiadau Iechyd Cychwynnol

Cyn bydd plentyn neu berson ifanc yn derbyn asesiad iechyd, bydd angen crynhoi cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl wrth fynd ar systemau electronig addas fel iechyd plant, PAS Cymru etc. Bydd yn bwysig adolygu'r cofnodion llawn, llenwi'r manylion geni & teulu, cysylltu â'r meddyg teulu ble'n addas a sicrhau bod y system iechyd plant wedi cofnodi'r holl frechiadau.

Adolygu Asesiadau Iechyd

Bydd angen cyfeirio at y cynllun gofal iechyd blaenorol bob tro er mwyn nodi materion allweddol a dilyn eu datblygiad.

Ar ôl derbyn adolygiad asesiad iechyd, dylai'r gweithiwr iechyd gadarnhau'r manylion a ddarparwyd gan y gallai plentyn fod wedi bod yn destun newid lleoliad/amgylchiadau. Bydd yn bwysig ymgynghori ag unrhyw weithiwr iechyd sy'n cyfrannu at ofal plentyn cyn cwblhau adolygiad asesiad iechyd. Dylid cynnwys gwybodaeth gan y meddyg teulu, gwasanaethau CAMHS a'r gofalwr.

Caniatâd

Rhaid cael caniatâd er cynnal asesiad iechyd. Os na nodir hynny ar y ffurflen, rhaid i'r gweithiwr iechyd drafod hynny gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Os na ddefnyddir ffurflen CoramBAAF, bydd pob ardal yn defnyddio'i gytundeb lleoli ei hun sy'n cynnwys caniatâd ar gyfer asesiad iechyd. Os bydd plentyn wedi cyrraedd oedran a dealltwriaeth ble bydd yn gallu rhoi caniatâd ei hun, rhaid trafod yr asesiad iechyd yn drylwyr a chael caniatâd i'w gynnal.

Caniatâd ar gyfer imiwneiddiadau

Gellir dirprwyo caniatâd ar gyfer imiwneiddiadau rheolaidd i'r gofalwr adeg y lleoliad drwy'r cytundeb lleoli. Gellir nodi unrhyw wrthwynebiadau gan y rhieni bryd hynny a'u cofnodi ar y cynllun lleoli/cytundeb gofalwr maeth. Dylid trefnu copi o'r cyfrifoldeb dirprwyol ar gyfer y gweithiwr iechyd.

Cyfrinachedd

Rhaid esbonio cyfrinachedd y broses i'r plentyn ar ddechrau'r asesiad iechyd. Ar bob amser dylid ystyried yr angen i rannu gwybodaeth a rhaid i weithwyr iechyd ddilyn polisïau diogelwch yn gysylltiedig â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.

Siarad gyda'r plentyn ar ben ei hun

Dylid cynnal rhan o'r asesiad gyda'r plentyn yn unig (oni fydd wedi cyrraedd oedran addas neu os na fydd y plentyn yn cytuno i hynny). Yn ystod y cyfnod hwn, gellir trafod teimladau neu bryderon am iechyd neu leoliad y plentyn. Bydd yn gyfle da i drafod unrhyw broblemau emosiynol neu gymorth ychwanegol gyda'r person ifanc.

Bydd hefyd yn amser da i drafod materion sensitif fel smygu, alcohol, camddefnyddio sylweddau, glasoed a/neu iechyd rhywiol.

Trafod gyda'r gofalwr

Os gwelir y person ifanc ar ben ei hun, rhaid i'r gweithiwr iechyd sy'n cynnal yr asesiad hefyd gysylltu â'r gofalwr fel rhan o'r asesiad. Byddwch yn glir gyda'r gofalwr pa wybodaeth byddwch yn trafod a rennir gyda'r person ifanc. Bydd angen nodi ar y crynodeb eich bod wedi siarad gyda'r gofalwr.

Cyfeiriadau

Sicrhewch fod cytundeb/caniatâd gennych am unrhyw gyfeiriadau byddwch yn gwneud. Efallai bydd angen nodi hyn fel cam ar y cynllun iechyd ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol i'w fynnu gan y rhieni neu'r rheolwr gwasanaeth.

Goruchwyliaeth

Bydd pob aelod staff iechyd sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal angen bod yn destun goruchwyliaeth diogelwch yn unol â pholisi goruchwyliaeth y bwrdd iechyd.

Rhaid darparu'r un lefelau diogelwch ar gyfer plant neu bobl ifanc yn byw i ffwrdd o gartref ag i blant neu bobl ifanc sy'n byw gyda'u teulu. Os nodir pryderon diogelu, rhaid dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019). Gellir cael cyngor gan dîm diogelu'r bwrdd iechyd neu dîm diogelu gwasanaethau plant yr awdurdod lleol.

Rhaid cyfeirio unrhyw honiad neu bryder am gamdriniaeth neu amheuaeth o gam-drin gan staff a gyflogir mewn sefyllfa breswyl, gofalwr maeth neu aelod o gartref gofalwr maeth, at adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019).

Cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth

Yn ddelfrydol dylid teipio gwybodaeth ond os defnyddir llawysgrifen rhaid iddo fod yn ddarllenadwy ac mewn inc du.

Peidiwch â thybio bod eraill eisoes yn ymwybodol o'r wybodaeth am hanes y teulu, materion ffordd o fyw'r plentyn neu rieni biolegol etc.

Dylai'r crynodeb a'r asesiad iechyd ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr am yr hanes iechyd a materion iechyd cyfredol. Dylai hefyd gynnwys manylion perthnasol am hanes y teulu. Efallai mai dyma'r unig wybodaeth iechyd fanwl fydd ar gael i'r meddyg teulu a'r gweithiwr cymdeithasol.

Ble'n bosibl dylid cytuno beth a ychwanegir at y cynllun gofal iechyd gyda'r person ifanc. Fodd bynnag, efallai bydd angen rhannu gwybodaeth hyd yn oed os na fydd y person ifanc yn cytuno, yn arbennig mewn cysylltiad ag unrhyw bryderon diogelu plant. Ni ddylid cynnwys manylion penodol, yn hytrach termau cyffredinol fel "wedi trafod materion ffordd o fyw" os na fydd y person ifanc yn hapus i rannu manylion penodol.

Os na fyddwch yn trafod iechyd rhywiol neu faterion eraill yn ystod yr asesiad, dylid cofnodi'r rheswm a nodi yn y crynodeb a'r cynllun gofal iechyd fod angen trafod hynny'n ddiweddarach, gan enwi'r person cyfrifol a'r amserlen.

Cedwir copi llawn o'r ddogfen asesiad iechyd yn y cofnod iechyd proffesiynol cyn ei dychwelyd i dîm iechyd LAC. Rhennir yr asesiad iechyd/crynodeb a'r cynllun gofal iechyd gyda gweithwyr allweddol yn unol â'r trefniadau lleol cymeradwyedig.

Dylid cadw'r holl gofnodion iechyd yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

2.9 Person ifanc yn methu cadw apwyntiad (DNA) neu heb ei gludo i apwyntiad

Asesiadau Iechyd:

Os na fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn cadw'r apwyntiad cyntaf, rhaid i'r gweithiwr iechyd gysylltu â'r gofalwr (delfrydol) neu'r gweithiwr cymdeithasol er pennu'r rheswm.

Os bydd person ifanc yn methu cadw ail apwyntiad, rhaid hysbysu'r gweithiwr cymdeithasol (ffôn/ebost). Cyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol yw trafod pwysigrwydd yr asesiad iechyd gyda'r person ifanc/gofalwr. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol gefnogi'r person ifanc/gofalwr er cadw apwyntiadau pellach.

Os bydd rheswm dilys am fethu cadw apwyntiad, cyfrifoldeb y gweithiwr iechyd fydd asesu os am gynnig apwyntiad pellach.

Os bydd plentyn neu berson ifanc yn gwrthod asesiad iechyd, rhaid i'r gweithiwr iechyd hysbysu tîm iechyd LAC. Dylai'r gweithiwr iechyd drafod mynediad i wasanaethau iechyd addas gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr. Wrth leoli plentyn/person ifanc mewn ardal bwrdd iechyd arall bydd angen i dîm iechyd LAC yr ardal honno hysbysu tîm iechyd LAC sy'n trefnu'r lleoliad er mwyn cael trafodaethau addas gyda'r gweithiwr cymdeithasol penodol.

Dylai'r person ifanc hefyd dderbyn gwybodaeth am fynediad i wasanaethau iechyd drwy'r gofalwr/gweithiwr cymdeithasol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth iechyd ysgrifenedig perthnasol. Bydd hefyd angen hysbysu'r person ifanc bod modd trefnu asesiad iechyd ar unrhyw adeg os bydd y person ifanc yn gofyn am un.

Bydd dal modd llenwi'r ffurflen asesiad iechyd hyd yn oed os na fydd y person ifanc yn cymryd rhan yn y broses ac os penderfynir er lles y person ifanc bod angen adolygu ei anghenion iechyd a llunio cynllun gofal iechyd. Gall y gweithiwr iechyd adolygu'r cofnodion a rhaid cynnal trafodaethau gyda'r gofalwr a'r gweithiwr cymdeithasol.

Rhaid manylu ar y ffurflen asesiad iechyd ffynhonnell unrhyw wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnir.

A dylai nodi'n glir fod y person ifanc wedi gwrthod bod yn bresennol, gan roi ffynhonnell yr wybodaeth iechyd. Yn ogystal, dylai'r cynllun iechyd nodi ble bydd y person ifanc yn gallu cael gwasanaethau a gwybodaeth iechyd, a bod modd trefnu apwyntiad asesiad iechyd arall, gyda phroses glir i gysylltu (hynny yw, y gofalwr i gysylltu â chi).



Galluogi pobl ifanc
sy'n derbyn gofal
i fyw bywydau normal

ENABLE
YOUNG PEOPLE IN
CARE TO LIVE
NORMAL LIVES



2.10 Yr Asesiad Iechyd - Cynnwys

Canllawiau asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Nod y canllawiau hyn yw helpu staff iechyd i gynnal asesiadau iechyd statudol. Gellir eu defnyddio i gefnogi asesiad nyrsio holistaidd er helpu i nodi anghenion iechyd adeg yr asesiad a llunio cynllun gofal iechyd.

Caniatâd	Dylai staff iechyd sicrhau bod caniatâd cymwys i gynnal asesiad iechyd ar gyfer pob plentyn. Gallai caniatâd fod ar ffurf cofnod gwybodaeth lleoliad wedi'i lofnodi pan fydd plentyn yn dechrau 'derbyn gofal'. Neu, awdurdod dirprwyedig wedi'i lofnodi sy'n destun adolygiad blynyddol.
Asesiadau cychwynnol ac adolygu 10+	Mae plant hŷn sy'n meddu ar y galluoedd priodol hefyd yn gallu hunan ganiatáu am asesiad iechyd. Bydd angen llofnodi Rhan A o'r ffurflen. Yn ogystal dylid hysbysu pobl ifanc sy'n hunan ganiatáu y rhennir y crynodeb (Rhan B) gyda'r gweithwyr a restrir yn Rhan A. Dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau bod caniatâd llofnodedig ar gael i'r staff iechyd ar gais (CoramBAAF, 2017).
Cynllunio asesiad iechyd	Cyswllt: Dylai staff iechyd geisio cysylltu â'r gofalwr/trefnydd lleoliad/person ifanc (ble'n addas) i drefnu amser hwylus i gynnal yr asesiad iechyd statudol. Yn ddelfrydol, o leiaf pythefnos cyn 'dyddiad' yr asesiad iechyd. Efallai bydd gweithwyr iechyd am anfon neges 'testun' i'r gofalwr dynodedig 24 awr cyn eu cyfarfod. Paratoi: Dylai staff iechyd adolygu'r asesiad iechyd blaenorol (os bydd ar gael) cyn cynnal ymweliadau. Yn ogystal efallai bydd plant oedran ysgol yn meddu ar holiadur iechyd ysgol wedi'i lenwi gan riant. Dylid hefyd edrych drwy systemau clinigol er mwyn gweld os yw'r person ifanc wedi derbyn cyfeiriadau neu apwyntiadau iechyd diweddar. Bydd hefyd yn darparu manylion unrhyw ymweliadau ag ysbyty/clinig. Ble'n addas, efallai bydd y staff iechyd yn penderfynu cysylltu â deintydd y person ifanc er mwyn cael manylion unrhyw driniaeth/cyfeiriadau etc. Pan fydd plentyn wedi'i osod mewn ardal arall, dylid adolygu'r ffurflen Anghenion Gofal Iechyd (Llwybr Hysbysu LAC (2015) GIG Cymru, Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliad ac Adolygu Achos (Cymru) 2015.

Asesiadau cychwynnol ac adolygu: llenwi'r Parthau Asesiad Iechyd


Rhan A: gwybodaeth sylfaenol	Gall gweinyddwr LAC lenwi'r manylion demograffeg. Bydd angen gwirio'r manylion yn yr asesiad iechyd, gan ychwanegu unrhyw fanylion coll.
Asesiadau Iechyd Cychwynnol yn unig: 0-9 a 10+ oed	Llenwi manylion geni (ble'n bosibl). Yn achos plant wedi'u gosod mewn ardal arall, efallai bydd tîm iechyd LAC yn gallu helpu gyda'r wybodaeth. Gwybodaeth iechyd y teulu: Llenwi os bydd y manylion ar gael. Os nad ydynt, cofnodi hynny. Yn ogystal, cynnwys unrhyw fanylion teuluol, ynghyd â manylion geneteg ac ystyried cyfeiriad at yr adran Paediatreg Cymunedol (yn unol â gweithdrefnau lleol. Gofal cymdeithasol: ystyried materion ffyrdd o fyw ac unrhyw risg o firysau gwaed: cyfeirio yn ôl yr angen gyda chaniatâd. Hanes iechyd plentyn: gwybodaeth iechyd blaenorol a chyfredol cyn derbyn gofal. Ydy'r plentyn yn destun diagnosis iechyd ar hyn o bryd? Yw'r diagnosis dal yn gyfredol, yw'r cyflwr yn sefydlog neu wedi'i drin ee asthma, alergedd blaenorol? Os na lenwyd gyda'r person ifanc, nodwch ffynhonnell yr wybodaeth ynglir a'r cysylltiad â'r person ifanc. Nodi apwyntiadau ar y gweill a gosod y plentyn ar restrau aros addas.
IHA: 0-9 yn unig:	Rhaglen Plentyn Iachus Cymru: llenwi os bydd y manylion ar gael - os na fyddant, nodi hynny yn y meysydd priodol.
Asesiadau adolygu iechyd yn unig: 0-9 and 10+	Adolygu'r cynllun iechyd blaenorol. Camau'r cynllun iechyd wedi'u gweithredu? Er enghraifft, brechiadau wedi'u rhoi? Yn ogystal, nodi os dilynwyd cyfeiriadau, gan gynnwys manylion diwygiedig yn y crynodeb. Os yw'r plentyn yn destun diagnosis - yw'r cyflwr wedi sefydlogi neu wedi'i drin. Hefyd ystyried camau gan CAMHS neu gymorth gan wasanaethau eraill ee CDT, therapïau preifat. Nodi apwyntiadau ar y gweill a gosod y plentyn ar restrau aros addas. Nodi newidiadau i iechyd (damweiniau; imiwneiddiadau; salwch o bwys). Nodi unrhyw newidiadau sylweddol ym mywyd y plentyn (cofio materion cysylltu â'r teulu; lleoliad; cartref).
Statws imiwneiddio	Unrhyw imiwneiddiadau ychwanegol yn y flwyddyn ddiwethaf? Cofnodi yma a rhestru'r rhai heb eu gwneud neu angen trefnu erbyn yr asesiad iechyd nesaf. Yn ogystal cofnodi unrhyw ymateb gwael i imiwneiddiadau. Gellir ychwanegu'r wybodaeth at y cynllun iechyd cryno fel camau i'w cymryd.

0-9 yn unig: Asesiad datblygu (IHA a RHA)	Crynodeb ac enghraifft o sgiliau symud (echddygol) bras a manwl; sgiliau cyfathrebu a gwybyddol. Bydd angen cynnwys sgiliau cymdeithasol, hunan ofal a thoiled. Cynnwys enghreifftiau i ddangos datblygiad hyd yma. Yw'r plentyn wedi bod yn destun archwiliadau datblygiadol ers yr asesiad iechyd diwethaf? Gofalwr/ysgol wedi hysbysu pryderon datblygiadol? Unrhyw asesiadau Ruth Griffiths? Unrhyw gyfeiriadau mewn bodolaeth ar gyfer pryderon datblygiadol? Cofio llenwi'r maes casgliadau er cefnogi'r crynodeb iechyd a helpu'r gweithiwr iechyd gydag unrhyw gyfeiriadau bydd angen manylu yn y cynllun iechyd.
Gwybodaeth iechyd gyffredinol: IHA ac RHA 0-9 a 10+	Gweld y meddyg teulu: cofnodi ymweliadau â'r meddyg teulu a'r canlyniadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd ystyried mynediad a chaniatâd i weld cofnodion y meddyg teulu.
Meddyginiaethau cyfredol:	Llenwi'r meysydd meddyginiaethau - manylion ym meddiant y gofalwr. Hefyd modd gweld cofnodion y meddyg teulu os derbyniwyd caniatâd yn unol â pholisïau'r bwrdd iechyd lleol. Angen manylion penodol; enw/ llwybr/ dos/ amllder. Cofnodi 'dim meddyginiaeth ar hyn o bryd' os dyna yw'r sefyllfa.
Alergedd:	Cofnodi manylion alergedd a rhoi mwy o fanylion yn y blwch testun os bydd angen. Ystyried os cynhaliwyd profion ffurfiol neu os bydd angen cyfeiriad.
Ymweld ag ysbytai ac adrannau damweiniau a brys:	Mynd i ysbytai ac adrannau damweiniau a brys: gwirio systemau clinigol cyn ymweliad. Os na fydd hynny'n bosibl, gwirio am wybodaeth ar ôl yr ymweliad. Llenwi'r meysydd ac adolygu os bydd angen dilyn i fyny unrhyw gamau. Defnyddio'r blwch testun er mwyn manylu ymhellach ar yr uchod a nodi camau i'w dilyn gan y gweithiwr iechyd. Gellir eu hychwanegu at y crynodebau cynllun gofal iechyd. Apwyntiadau yn y dyfodol/amserlen (ble'n gymwys). Gellir hefyd defnyddio'r wybodaeth er hysbysu'r crynodeb cynllun iechyd a'r IRO, gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr iechyd ee newid cyfeiriad, lleoliad, a throsglwyddo gofal er gostwng yr angen am ailgyfeiriad, rhyddhau am fethu apwyntiadau.

Datblygiadol/ ymarferol (0-9 oed: IHA/RHA)	Amlinelliad ac enghraifft o sgiliau symud bras a manwl; sgiliau cyfathrebu a gwybyddol. Ymestyn y blwch testun er cofnodi datblygiadau ee cerdded, siarad; sgiliau oedran (ble'n gymwys).
Iechyd cyffredinol yn cynnwys adolygiadau ac unrhyw ddiagnosis blaenorol. Meddyginiaeth Alergedd	Gweld y meddyg teulu: rhestru ymweliadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac unrhyw gamau dilynol (yn achos RHAs rhestru ymweliadau fel uchod ers yr asesiad iechyd diwethaf). Apwyntiadau OPD a rhai i ddod. Ymweliadau ag adran ddamweiniau a brys Hefyd ystyried lleoliadau iechyd preifat/nid gwasanaeth iechyd Ehangu'r blwch testun er nodi manylion pellach a chymhysu i'w cymryd gan yr asesswr. Gellir ychwanegu at y crynodeb cynllun iechyd.
Tyfiant	Taldra, pwysau etc. Adolygu canraddau - os bydd angen cyfeiriad, tîm iechyd LAC yn gyfrifol. Gwahaniaethau rhwng y canraddau blaenorol? Pryderon am dyfiant? Cofnodi pryderon/cyngor a roddwyd/cyfeiriadau angenrheidiol. Cyfrif BMI pob plentyn 2+ oed
Gweithgaredd corfforol	Cofnodi gweithgaredd corfforol (addas i'r oedran): plentyn yn gwneud ymarfer corff am un awr y dydd? Nodi manylion addas.
Diet	Adolygu diet: Plant 0-1 oed: llenwi'r meysydd er cynnwys gwybodaeth ychwanegol ee patrymau bwyta, problemau, alergedd. Plant 6 mis+: cofnodi'r bwyd a gafwyd, sgiliau hunan fwydo etc. Hefyd ystyried cymorth ychwanegol os bydd angen – dilyn i fyny yn y lleoliad. Plant oedran ysgol: bwyd yn yr ysgol – pryd ysgol neu becyn bwyd (adolygu cynnwys y pecyn). Mynychu clwb brecwast? Plant ysgolion uwchradd: adolygu bwyd cyn mynd i'r ysgol, bwyd yn yr ysgol? Adolygu dewisiadau bwyd. Yw'r plentyn yn dilyn diet iachus a chytbwys? Unrhyw bryderon? Gorfwyta, anghenion diet arbennig, bwydydd addas i'r diwylliant, atodiadau bwyd?).
Clyw	Wedi pasio archwiliad clyw geni? (0-9 RHA yn unig) Gwirio prawf mynediad ysgol (ble'n addas) cyn yr asesiad. Unrhyw bryderon gan y person ifanc, gofalwr, ysgol am ei glyw? Ehangu'r blwch testun er cofnodi monitro prawf clyw a dyddiad prawf clyw diweddar (ble'n addas).

Golwg	Unrhyw bryderon gan y person ifanc, gofalwr neu eraill am ei olwg? Ehangu'r blwch testun er cyfeirio at gyfarfod yr optegydd yn ddiweddar a nodi pryderon; trafod anawsterau darllen bwrdd gwyn yn yr ysgol, darllen pethau agos, pen tost. Nodi cyngor a roddwyd i'r person ifanc / gofalwr. Acystyried cyfeiriad blaenorol at orthodeintydd yn dilyn newid lleoliad LAC. Rhestru'r camau angenrheidiol.
Iechyd deintyddol	Sylwi ar hylendid deintyddol. Ac ystyried cyfeiriad blaenorol at orthodeintydd yn dilyn newid lleoliad LAC. Rhestru'r camau angenrheidiol. Os bydd ansicrwydd am yr apwyntiad diwethaf, gofyn am y manylion diweddaraf drwy'r gofalwr neu gysylltu â'r feddygfa yn unol â'r trefniadau lleol. Rhestru'r camau angenrheidiol. Os nad yw'r plentyn wedi cofrestru gyda deintydd, gwneud y cyfeiriad iawn.
Amgylchedd: 0-9 oed (IHA/RHA)	Llenwi'r meysydd angenrheidiol gan nodi gwybodaeth berthnasol/cyngor a roddwyd. Ystyried diogelwch y cartref ee offer diogelwch, tegau addas, storio cemegau a meddyginiaethau, gatiau grisiau etc. Hefyd ystyried diogelwch wrth deithio ee sedd car addas, helmed beic. Ac ystyried diogelwch ffyrdd addas i'r oedran, ymddygiad tu allan y cartref ee peryglon dieithriad.
Patrwm cysgu:	Cofnodi'r patrwm cysgu arferol: yn cynnwys cysgu yn y dydd addas i'r oedran. Ystyried trefniadau amser gwely, offer cysuro, ansawdd cwsg, gwlychu'r gwely, ofnau'r nos neu broblemau eraill. Cofnodi gwybodaeth / cyngor ychwanegol a roddwyd yn ôl yr angen.

- Cadw mewn golwg:
Rhaid pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwneud yn dda iawn!
- Ond:
- Sut bydd anawsterau emosiynol yn datblygu mewn gofal?
Byw ar wahân i blant eraill y teulu
Newid lleoliadau: symud yn creu straen!
- Triniaethau cyffredin:
Seicotherapi
Therapi creadigol
Dim llawer o CBT - pam?
Dysgu sgiliau
Gofalwr
- Anghenion iechyd meddwl
- Lleoliad anghywir
- Torri'r cylch
- Methu cael help
Beth yw'r rhwystrau?



IHA/RHA 0-9 yn unig: Iechyd a lles emosiynol (2-2.5+ oed)	Ble'n addas: Llenwi'r meysydd ar y ffurflen. Fel arall, nodi'r manylion yn y maes addas. Hefyd ystyried nam ar y golwg, anawsterau dysgu ac addasu'r asesiad yn ôl yr angen. Ystyried unrhyw anawsterau iechyd a lles emosiynol. Yw'r person ifanc yn derbyn cymorth ychwanegol neu a fydd angen cyfeiriad? Unrhyw bryderon gan y gofalwr? Sylwi ar ryngweithio gydag eraill: cofnodi ar y ffurflen.
Iechyd a lles emosiynol: 10+ oed	Fel uchod. Hefyd adolygu ymddygiad, tymer ddrwg, hunanniweidio, sylwadau gan CAMHS. Plentyn yn derbyn cymorth drwy'r ysgol ee gwasanaethau cynghori, triniaethau therapiwtig? Cofnodi'r manylion ychwanegol ac unrhyw gyngor a roddwyd. A'r camau a ddilynwyd. • Cyflwr adeg yr asesiad: (ee golwg cyffredinol, cyswllt llygaid, lleferydd, mynegiant wyneb ac iaith y corff) • Ymateb yn addas i gwestiynau • Natur y plentyn yn gyffredinol • Ymddygiad mewn amgylchiadau gwahanol (hunanreolaeth addas). • Sgiliau cyfathrebu - er gwella annibyniaeth • Addasu i newid (pa newidiadau?) • Ymateb i bwysau (yn cynnwys (anhwylderau bwyta/hunanniweidio etc) • Ymddygiad ymlyniad (yn cynnwys rhyngweithio â gofalwyr) • Gofalwr yn poeni am ymddygiad y plentyn, iechyd meddwl a lles? Sut mae'r gofalwr yn rheoli'r problemau? • Nodi teimladau / camau tuag at / perthynas â'r gofalwr, teulu, cyfoedion a phobl eraill o bwys • Os yn teimlo'n isel, beth fydd yn eich helpu i deimlo'n well? (siarad gyda ffrindiau, oedolyn, gofalwr, gwrando ar fiwsig, arlunio, chwarae, mynd allan) • Unrhyw beth penodol nad yw'n dda ar hyn o bryd? (awgrymu cartref, teulu, ysgol, ffrindiau, bwllo, eich gofal

IHA/RHA 0-9: a 10+ oed Cyswllt teulu a brawd/chwaer	Llenwi'r meysydd ar y ffurflen. Sylwi ar unrhyw effeithiau yn achos y plentyn/person ifanc.
IHA/RHA 0-9 a 10+ oed: Adolygiad addysg	Nodi unrhyw gymorth ychwanegol yn yr ysgol, ALN. Ehangu'r blwch testun er mwyn cynnwys SEN (gwirio dyddiad yr adolygiad ac unrhyw amodau ychwanegol ee S&L); 1:1 cymorth yn yr ysgol; darpariaeth addysg amgen, gostwng yr amserlen etc. Hefyd cynnwys hoff/cas bethau am ysgol. Person ifanc yn rhan o weithgareddau / grwpiau yn yr ysgol etc. Yn mynychu dosbarth meithrin / ysgol / project? Profiad o lwyddiant a chyflawni pethau.
Addysg: Cysylltiadau gyda chyfoedion	Person ifanc yn mwynhau'r ysgol a ffrindiau yno? Unrhyw anawsterau ee gwneud ffrindiau / bwllo? Unrhyw oedolion yn yr ysgol gall siarad gyda nhw? Gofalwr yn mynychu nosweithiau rhieni? Diet yn yr ysgol? Defnyddio'r blwch testun er nodi'r manylion uchod yn cynnwys cyngor diet a roddwyd (yn ôl yr angen); ac unrhyw gamau oherwydd pryderon yr ysgol a chytuno camau gan y gweithiwr iechyd gyda'r person ifanc yn yr asesiad. Yn ogystal nodi gweithgareddau all-ysgol a diddordebau; ffrindiau tu allan i'r ysgol.
IHA/RHA 10+ oed yn unig: Hunanofal a sgiliau byw'n annibynnol Glasoed, iechyd rhywiol	Llenwi'r meysydd addas ar y ffurflen yn unol â'r oedran. Cymorth ychwanegol wedi'i drefnu? Cynorthwydd personol gan y plentyn/person ifanc? Person ifanc yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol? Person ifanc yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau iechyd ar ben ei hun? Cofnodi hynny a gwybodaeth ychwanegol/cyngor a roddwyd, camau angenrheidiol. Cyflwyniad cymdeithasol; golwg cyffredinol, glendid (hylendid personol) a sgiliau hunanofal. Ystyried oedran y plentyn a rhaglenni PSE yr ysgol (fel bo'n addas); ac ystyried os bydd y gofalwr angen cymorth ychwanegol gyda phynciau ee anawsterau dysgu plentyn; profiadau blaenorol. Defnyddio'r blwch testun i gofnodi'r drafodaeth a'r cyngor a roddwyd. Gwybodaeth o'r glasoed (osgoi tybio eu bod yn gwybod popeth) Glasoed/iechyd rhywiol - cofnodi unrhyw drafodaeth a/neu materion a phryderon (osgoi gormod o fanylion os na fydd yn addas, trafod gyda'r person ifanc os yn cael gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth addas er nodi 'edrych i ddiwallu anghenion'). Byddwch yn glir bydd angen dilyn hyn i fyny gennych chi/person arall yn y cynllun gweithredu.

Glasoed, iechyd rhywiol (parhad)	Nodi os bydd y person ifanc angen mynd i glinig iechyd rhywiol - Cofnodi yn Rhan A a chynnwys yn Rhan B dim ond gyda chaniatâd penodol y person ifanc. Person ifanc yn ymwybodol o wasanaethau iechyd rhywiol lleol/GIG Cymru Uniongyrchol/ble i gael pils atal cenhedlu hormonaidd? Holiadur Risg Ecsbloetiaeth Rhywiol Plant (CSERQ) Dilyn y canllawiau llenwi Hefyd ystyried os bydd angen cymorth gan y nyrs ysgol. Os bydd unrhyw bryderon am y maes hwn ee iechyd rhywiol, CES, masnachu pobl (trafficking), FGM, dilynwch y prosesau diogelu arferol.
Sgiliau hunanofal, smygu ac alcohol	Llenwi wrth ddilyn y canllawiau. Hefyd ystyried cadw'n saff, diogelwch ar ffyrdd a diogelwch personol fan hyn. Oes trefniadau i'r person ifanc a'r gofalwr gadw mewn cysylltiad pan fydd y person ifanc allan gyda ffrindiau? Defnyddio'r blwch testun er cofnodi gwybodaeth gan y person ifanc a'r gofalwr. Nodi canlyniad y drafodaeth ee cyngor a roddwyd, cyfeiriadau angenrheidiol; hefyd yn gallu cynnwys pynciau a drafodwyd drwy raglen PSE yr ysgol. Nodi os bydd angen gwybodaeth/cyngor pellach ar y person ifanc/gofalwr a chofnodi'r camau angenrheidiol. Cofnodi os gwrthodwyd hynny.
Camddefnyddio sylweddau	Llenwi wrth ddilyn y canllawiau. Defnyddio'r blwch testun i fanylu ar yr uchod: Trafod rhaglenni PSE yr ysgol: hyrwyddo iechyd; gwybodaeth y person ifanc am sylweddau; ffynonellau cymorth a gwybodaeth; ac ystyried os bydd y gofalwr angen gwybodaeth/cyngor pellach. Cofnodi cyngor neu gamau angenrheidiol. Nodi os gwrthodwyd y cyngor

Cymru: 67.5% o blant mewn gofal yn wynebu camdriniaeth neu esgeulustod



Dymuniadau, teimladau'r person ifanc	Nodi yn y blwch testun Rhaid 'lleisio barn' y plant yn glir yn y dogfennau, yn cynnwys sylwadau a gwybodaeth a dderbyniwyd wrth gynnal asesiad. A'u barn am eu hiechyd. Sut mae'r plentyn/person ifanc yn teimlo ar hyd o bryd (tymer)? Unrhyw bryderon penodol am eu hiechyd yn addas i'w rhannu? Bod yn glir gyda'r person ifanc am y materion a godwyd gan y gofalwr (a'r gofalwr wedi cytuno i'w trafod) Gofal sylfaenol - bodlon ei fod yn diwallu anghenion sylfaenol? Materion diogelwch Cynhesrwydd emosiynol (hapus i gyffwrdd pobl eraill? Plentyn/person ifanc a nhw?) Ysgogiad (gwneud pethau ar y cyd? - cymryd rhan mewn gweithgareddau / cymdeithasu fel teulu). Cyfarwyddyd/ffiniau Sefydlogrwydd (y lleoliad) Materion eraill a nodwyd gan y person ifanc
Eich sylwadau	Gweler y ffurflenni
Materion gofalwyr/rhieni yn y lleoliad	Siarad gyda'r gofalwyr bob tro, yn arbennig pan na fydd y person ifanc yn bresennol - cysylltu drwy ffôn a nodyn wrth siarad (CYN yr asesiad). Bod yn glir gyda'r gofalwyr pa wybodaeth a drafodwyd byddwch yn rhannu gyda'r person ifanc. Gofal sylfaenol - bodlon ei fod yn diwallu anghenion sylfaenol (rhai pryderon ee hylendid efallai). Materion diogelwch (pryderon am ffrindiau/mynd ar goll etc). Cynhesrwydd emosiynol (hapus i gyffwrdd pobl eraill? Plentyn/person ifanc a nhw?) Ysgogiad (gwneud pethau ar y cyd? - cymryd rhan mewn gweithgareddau / cymdeithasu fel teulu). Cyfarwyddyd/ffiniau. Sefydlogrwydd (y lleoliad). Cyfeirio at farn y plentyn (ble'n addas i'r oedran) yn yr adran hon hefyd.

Crynodeb cynllun iechyd	Ychwanegu gwybodaeth yn Rhan A at gynllun a chrynodeb iechyd Rhan B. Cynnwys diweddariadau/newidiadau iechyd ers yr asesiad iechyd diwethaf. Cynnwys cyfeiriadau newydd, camau dilyn i fyny, amserlen apwyntiadau. Iechyd cyffredinol ers yr RHA diwethaf Os bydd angen ystyried cyfrinachedd gwybodaeth a rannwyd a chydymffurfio â CPP
Cynllun iechyd newydd	Dylai'r cynllun gofal iechyd gynnwys POB mater a nodwyd yn yr asesiad/crynodeb iechyd. Rhaid i'r cynllun iechyd gynnwys manylion: • Cofrestru meddyg teulu a deintydd. • Profion golwg a fynnwyd gan yr optegydd. • Iechyd a chymorth emosiynol a seicolegol. • Cyflyrau meddygol penodol; pwy/ble yn gyfrifol am ddilyn i fyny. • Alergedd. • Meddyginiaeth; pwy sy'n monitro / dilyn i fyny. • Anghenion iechyd eraill a nodwyd. • Ffordd o fyw / sgiliau annibyniaeth / cymryd risgiau. • Nodi amserlenni clir ar gyfer camau. Osgoi defnyddio 'asap' ac ati, yn hytrach 'erbyn adolygiad LAC nesaf'. • Nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am y camau angenrheidiol, am bob rhan o'r cynllun. Nodi enw a swydd broffesiynol y 'person cyfrifol', onid y person ifanc, ble bydd yr enw cyntaf yn ddigon. • Llenwi dyddiad yr asesiad iechyd nesaf ac ychwanegu at eich rhestr achosion. Ar hyn o bryd, o dan y gyfraith rhaid asesu pob plentyn sy'n derbyn gofal o dan 5 oed bob 6 mis, a phob plentyn dros 5 oed bob 12 mis. Cyfrifoldeb y prif swyddog iechyd yw adolygu'r cynllun gofal iechyd a gwirio bod y camau wedi'u dilyn ar bob adolygiad LAC. Rhaid llenwi a dychwelyd y ffurflen asesiad iechyd i dîm LAC o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd tîm iechyd LAC yn prosesu'r ffurflen asesiad iechyd yn unol â chytundebau lleol. Rhaid dyddio a llofnodi pob dogfen.

2.11 Monitro cydymffurfriad ac ansawdd

Asesiadau iechyd cychwynnol ac adolygu

Ansawdd


Yn unol â chytundebau lleol, gellir adolygu asesiadau iechyd yn erbyn rhestr wirio aswariant ansawdd wedi'i addasu o'r safonau a bennwyd fel rhan o'r Fframwaith Asesiad Iechyd. Rhaid i bob asesiad iechyd gydymffurfio â'r rhestr wirio.

Dychwelir asesiadau / crynodebau iechyd a chynlluniau gofal iechyd anghyflawn / annigonol i'r swyddog iechyd i'w haddasu. Rhwir cyfle i swyddogion iechyd hunanasesu eu hasesiadau yn erbyn y safonau ansawdd disgwylidig.

Archwiliad

Mae'r fframwaith hefyd yn cefnogi datblygiad o becyn adnoddau ar gyfer rheolwyr gwasanaeth a thîm iechyd LAC, fydd yn rhan o'r broses aswariant ansawdd yn unol â threfniadau ar gyfer pob bwrdd iechyd ar draws GIG Cymru.

Gellir defnyddio rhannau (neu'r cyfan) o'r asesiad iechyd er mwyn archwilio ansawdd yr asesiad iechyd wrth ddefnyddio'r safon arferion neu restr wirio ymarferydd.



- Ein rhwydwaith Safonau cyson Polisi Arferion Trafod goruchwyliaeth Archwiliadau Rhannu dysgu
- Grŵp Llywio Plant mewn Gofal Llewyrchus
- 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru

- CoramBAAF Adoption and Fostering Academy (2017) *Undertaking a Health Assessment*.
- Department for Education and Department of Health (2015) *Promoting the Health and Well-Being of Looked After Children*, London: DfE and DoH
- Looked After Children Health Exchange (LACHE) 2012. *Supporting and Promoting the Health Needs of Looked After Children in Wales, A Practice Guide*.
- Merredew, F. and Sampeys, C. (eds) (2015) *Promoting the health of children in public care: The essential guide for health and social work professionals and commissioners*. London: BAAF.
- Public Health Wales (2017) NHS Wales Notification Pathway for Looked After Children (2017) PHW.
- Royal College of Paediatrics and Child Health and Royal College of Nursing (2015) *Looked After Children: Knowledge, skills and competences of health care staff- Intercollegiate role framework*, London: RCPCH
- United Nations Convention on the Rights of the Child (1989) Geneva: UNDOH 2009.
- Welsh Government (2005) *Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005*, Cardiff: Welsh Government.
- Welsh Government (2012) *Adoption Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2012*, Cardiff: Welsh Government.
- Welsh Government (2014) Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. *Part 6 – Code of Practice (Looked After and Accommodated Children)*. Welsh Government (2015) *Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015*, Cardiff: Welsh Government.

Atodiad 1

Safonau Arferion Gorau

SAFON

Dylai'r holl fanylion demograffeg a hanes gofal fod ar gael wrth gynnal asesiad iechyd LAC.

Manylion demograffeg craidd sylfaenol

Enw llawn plentyn / person ifanc	
Dyddiad geni	
Dyddiad derbyn plentyn mewn gofal	
Statws cyfreithiol	
Cyfnod plentyn yn derbyn gofal	
Rhif GIG (NHS)	
Enw gofalwyr - perthnasau?	
Rhifau ffôn gofalwyr	
Enw gweithiwr cymdeithasol	
Caniatâd wedi'i roi - gan bwy?	
Plentyn yn byw tu fewn/allan yr ardal	
Enwau pobl eraill yn bresennol	
Plentyn wedi cael cyfle i'w weld ar ben ei hun	
Lleoliad	

SAFON

Asesiad iechyd LAC i gofnodi hanes geni ac iechyd y teulu os bydd ar gael

Ystyriaethau sylfaenol asesiad iechyd cychwynnol

Cyflyrau genetig yn y teulu	
Hanes obstetreg a geni	
Hanes newydd-anedig	
Ffactorau risg firysau yn y gwaed	
Camddefnyddio alcohol/sylweddau cyn geni	
Pryderon ffordd o fyw teulu (ACEs), trais yn y cartref	
Cysylltiad cyfredol gyda'r teulu/ brawd/ chwaer etc.	

SAFON

Asesiad iechyd LAC i gofnodi'r holl fanylion iechyd a datblygu hanfodol

Ystyriaethau sylfaenol

Hanes iechyd blaenorol:	
Materion/cyflyrau iechyd hysbys/blaenorol	
Hanes iechyd cyfredol:	
Cynnal archwiliad corfforol os gwelir gan baediatregydd	
Clyw - awdiolegydd	
Deintydd - cofrestru	
Orthodeintydd	
Meddyg teulu lleol	
Golwg - optegydd	
Lleferydd - SALT	
Meddyginiaeth	
Alergedd	
Tyfiant - taldra, pwysau, BMI, sylwadau ar dyfiant	
Imiwneiddiad	
Ymweld ag ysbyty	
Maeth	
Arferion cwsg	
Defnyddio'r toiled	
Sgiliau symud bras/manwl, sgiliau cymdeithasol	
Amserlen hanes feddygol	
Crynodeb sgrinio iechyd	
Adolygu'r cynllun iechyd blaenorol a dilyn i fyny'r camau angenrheidiol	
Newidiadau iechyd ers yr asesiad diwethaf	

SAFON

Asesiad iechyd LAC i gofnodi'r holl fanylion lles emosiynol ac iechyd meddwl

Ystyriaethau sylfaenol

Golwg ac ymddygiad cyffredinol y plentyn	
Disgrifiad y gofalwr maeth/rhiant/ gwarcheidwad o'r plentyn?	
Ymateb y plentyn i arferion/ffiniau?	
Oedolyn dibynadwy/NEU rywun i'w gysuro ym marn y plentyn?	
Sut orau i dawelu'r plentyn?	
Beth sy'n gwaethygu ei ymddygiad?	
Hunanniweidio - ymweld ag ysbytai/A&E	
Wedi defnyddio arf asesu lles emosiynol?	
Nodi triniaethau therapiwtig neu angen help pellach ee CAMHS/iechyd meddwl	
Cyfraniad tîm cyffuriau ac alcohol	
Diagnosis: nodweddion/cynlluniau/asesiadau (Ed, psych, court, CAMHS)	
Cofnodi pryderon/sylwadau'r plentyn	
Cofnodi pryderon/sylwadau gofalwyr	
Effeithiau'r cysylltiad ar y plentyn/person ifanc	

SAFON

Asesiad iechyd LAC i gofnodi risgiau ffordd o fyw a chyfleoedd hyrwyddo iechyd

Ystyriaethau sylfaenol

Ymddygiad, ffordd o fyw	
Troseddu - cysylltiad â phwy ee YOS, Heddlu	
Ffiniau siroedd (county lines)	
Iechyd rhywiol/atal cenhedlu	
Ecsbloetiad	
Defnyddio cyffuriau ac alcohol	
Smygu	
Ymarfer corff	
Cadw'n ddiogel	
Diogelwch rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol	
Tystiolaeth o drafod annibyniaeth a dysgu'r sgiliau angenrheidiol	

SAFON

Bydd cynllun crynodeb asesiad iechyd LAC yn cynnwys yr isod o leiaf

Ystyriaethau sylfaenol

Nodi'r holl anghenion iechyd yn glir a'u cofnodi yn y cynllun	
Nodi camau ac amserlenni clir er diwallu anghenion iechyd. Osgoi defnyddio ASAP neu ar y gweill	
Nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am y camau yn y cynllun. Cynnwys enwau a rolau proffesiynol	
Dyddiad yr asesiad iechyd	
Adolygu'r cynllun iechyd blaenorol	
Math yr asesiad - cychwynnol neu adolygiad	
Enw a swydd y person yn cynnal yr asesiad	
Yr holl fanylion wedi'u teipio neu ysgrifennu'n glir	
Cofnodi dyddiad yr adolygiad nesaf	
Llofnodi a dyddio, gan gynnwys manylion cyswllt	
Cofnodi ffynonellau gwybodaeth. Nodi diffyg gwybodaeth a/neu nodiadau heb eu rhannu cyn yr asesiad iechyd	
Cynllun Gweithredu Iechyd i gynnwys: Meddyg teulu Deintydd Golwg Alergedd Meddyginiaeth Pwysau, taldra, siart canraddau BMI plant 2+ oed Imiwneiddiad Iechyd emosiynol Anghenion iechyd penodol Anghenion iechyd newydd a nodwyd yn ystod yr asesiad	

Atodiad 2

Asesiad Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal - rhestr wirio swyddog iechyd

Mae'r rhestr yn llywio swyddogion drwy'r meini prawf a'r dangosyddion ansawdd er cwblhau'r asesiad. Rhaid cofnodi tystiolaeth o'r dangosyddion ansawdd o fewn yr asesiad iechyd.

Llenwch a dychwelwch gyda'r Asesiad Iechyd llawn

Enw'r plentyn:	Dyddiad geni:
	Rhif GIG/NHS:
Math asesiad Adolygiad cychwynnol (Dileu fel bo angen)	Dyddiad asesiad nesaf:
Dyddiad y cais:	Dyddiad cwblhau asesiad:

Gwaith papur Rhan A	Do/Na N/A	Sylwadau
Tystiolaeth o grynhoi gwybodaeth er hysbysu'r asesiad gan weithiwr cymdeithasol y plentyn ac asiantaethau iechyd eraill yn darparu'r gofal (ee CAMHS, meddyg teulu, therapyddion)		
Tystiolaeth o drafodaeth er ystyried digwyddiadau iechyd ers yr asesiad diwethaf, sef adrannau damweiniau a brys, salwch, imiwneiddiad)		
Iechyd corfforol: Rheoli cyflyrau iechyd, problemau cwsg, diet, salwch, gweithgaredd corfforol, taldra & pwysau (rhaid cyfrif BMI) ac alergedd		
Iechyd datblygiadol: Sgiliau symud bras a manwl, cerrig milltir datblygiadol (oedrannau & camau), glasoed, adolygiad addysg yn cynnwys symudiadau allweddol yn yr ysgol a sgiliau annibyniaeth.		
Iechyd emosiynol / ymddygiad: ymlyniad (attachment), pryder, pwysau, iselder, hunanniweidio, iechyd meddwl positif, ffrindiau, hunan-barch ac ymddygiad.		

Gwaith papur Rhan A	Do/Na N/A	Sylwadau
Iechyd deintyddol: Trafodaeth amlwg o iechyd geneuol, defnydd o siwgr, diodydd, diet, brwsio dannedd.		
Golwg: Dyddiad y prawf golwg diwethaf a defnydd o sbectol		
Cyfraniadau gweithwyr iechyd: Manylion gwaith asiantaethau iechyd yn cynnwys apwyntiadau diwethaf/nesaf.		
Statws imiwneiddio: Imiwneiddio yn ôl yr amserlen, manylion imiwneiddiadau diweddar a rhai angenrheidiol erbyn yr asesiad iechyd nesaf.		
Meddyginiaeth: Manylion unrhyw feddyginiaeth neu offer angenrheidiol.		
Cadw'n saff: Plant 0 i 9 oed - diogelwch yn y cartref, goruchwyliaeth addas, diogelwch ar y ffyrdd, smygu ail law. Plant 10 i 18 oed - ystyried risg CSE, mynd ar goll o'r lle gofal, diogelwch rhyngrwyd a diogelwch ar y ffyrdd.		
Cysylltiadau iechyd: Profion personol, glasoed a newidiadau'r i'r corff, iechyd rhywiol a mynediad i wasanaethau (rhaid cael tystiolaeth o drafodaethau addas ar gyfer POB plentyn dros 10 oed).		
Profi sylweddau: Tystiolaeth o drafod alcohol a sylweddau.		
Lleisio barn y plentyn: Ystyried rhyngweithio gyda gofalmwyr yn achos plant iau, trafod teimladau am iechyd gyda phlant hŷn. Wedi rhoi cyfle iddynt eu gweld ar ben eu hunain?		

RHAN B: Adroddiad & Cynllun Iechyd Cryno	Oes/Na N/A	Sylwadau
Cyflwr iechyd cyffredinol ers yr asesiad diwethaf: Crynhoi Rhan A o'r asesiad a sicrhau ei fod yn trafod pob maes		
Rhaid i'r cyflwr corfforol cyfredol gynnwys amlinelliad o'r tyfiant (BMI) a'r canrannau		
Nodi amserlenni a'r person cyfrifol: Argymhellion yn glwm i gyfnodau penodol, osgoi ar y gweill (ongoing)		
Rwy'n cytuno fod yr asesiad cychwynnol/adolygu yn diwallu'r meini prawf a safonau ansawdd y rhestr wirio		
Enw'r swyddog yn cynnal yr asesiad iechyd:		
Swydd:		
Dyddiad:		

Aswiriant Ansawdd Mewnol		
Asesiad wedi cyrraedd y safon?	Do	Na
Enw:		
Swydd:		
Dyddiad:		

'RCGP, RCN, RCPCH (2015) Plant sy'n derbyn gofal: Gwybodaeth, sgiliau & cymwysterau staff;

Atodiad 3

Cyfarwyddwyd llenwi holiadur risgiau ecsbloetiad rhywiol plant (CSERQ15) + troednodyn

Blwch 1: Gwasanaethau Blaenoriaeth²

- Meddygon teulu
- Gwasanaethau iechyd rhywiol
- Gwasanaethau ymosodiadau rhywiol
- Timau plant sy'n derbyn gofal (LAC)
- Gwasanaethau anabledau dysgu
- Gwasanaethau paediatreg
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Bydwreigiaeth
- Ymweliadau iechyd
- Nyrsys iechyd ysgolion
- Gwasanaethau cynghori
- Gwasanaethau damweiniau a brys
- Gwasanaethau ambiwlans Cymru
- Fferyllwyr

Blwch 2: Plant a phobl ifanc blaenoriaeth²

- Plant sy'n derbyn gofal
 - Plant gyda heintiad rhywiol
 - Plant beichiog
 - Plant yn methu mynychu'r ysgol
 - Plant yn hunanniweidio/ystyried lladd eu hunain
 - Plant yn camddefnyddio alcohol/sylweddau
 - Plant yn camymddwyn
 - Plant gydag anawsterau corfforol/dysgu
- Yn ogystal
- Plant yn derbyn profion beichiogaeth, cyngor atal cenhedlu/triniaeth (yn cynnwys atal cenhedlu brys)
 - Trais yn y cartref

Blwch 3: Terfynau cyfrinachedd

Esbonio os bydd plentyn yn datgelu rhywbeth sy'n codi pryderon am eu diogelwch nhw neu blant arall, bydd dyletswydd arnoch i weithredu.

Blwch 4: Datgelu datganiad

Esbonio eich pryderon i'r plentyn a gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth. "Bydd angen rhannu fy mhryderon gyda chydweithwyr (ee Gwasanaethau plant) fydd mewn sefyllfa i helpu a chefnogi." Cofio bod diogelwch y plentyn yn hollbwysig ac os gwrthodir rhoi caniatâd, bydd dal RHAID i chi weithredu.

Blwch 5: Ansicr pa gamau i'w cymryd?

Trafod eich pryderon gyda pherson addas yn unol â'r protocol diogelu plant. Gallai fod eich rheolwr, arweinydd diogelu plant neu weithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd. Cynnwys pob ymateb i CSERQ yn eich cyfeiriad diogelu plant.

Mae asesiad risg CSE angen dilyn dull sy'n ystyried anghenion holistaidd y plentyn. Nod rhestr wirio CSERQ15 yw helpu gweithwyr iechyd i asesu risgiau plant ac i gefnogi eu **profiad proffesiynol** wrth bennu pryd i wneud cyfeiriad diogelu plant. (gweler blwch 1 gwasanaethau blaenoriaeth)

UNRHYW blentyn (10-17 oed) o **UNRHYW** gefndir yn gallu bod mewn perygl o ecsbloetiad rhywiol. Blwch 2 yn rhestru'r rhai mwyaf agored i niwed **Cofiwch osgoi rhagdybio**

Esbonio'r terfynau cyfrinachedd
(blwch 3)

Cyflwyno'r cwestiynau

"Rwyf am ofyn rhai cwestiynau i weld os ydych yn saff a neb yn eich niweidio neu'n pwysu arnoch i gael rhyw"

Llenwi rhestr wirio CSERQ15

Mae pob plentyn yn unigryw. Gyda dros 100 potensial dangosydd risg CSE³ efallai bydd angen ystyried ffactorau risg a diogelu eraill

Defnyddio eich profiad proffesiynol

Os bydd pryderon eraill gennych am iechyd, lles neu ddiogelwch plentyn **RHAID** eu cyfeirio

CSERQ4: 1+ ymateb positif

CSERQ15: 5+ ymateb positif

yn awgrymu risg CSE sylweddol

Rhaid gweithredu

Fodd bynnag, os bydd pryderon eraill gennych, gallech benderfynu cyfeirio ar drothwy is.

Esbonio'r angen i rannu gwybodaeth a gofyn am ganiatâd i wneud hynny (blwch 4)

Gwneud cyfeiriad diogelu plant. Os yn ansicr pa gamau i'w cymryd, gweler blwch 5. Cofnodi eich canlyniadau a'r camau a gymrwyd

Holiadur risg ecsbloetiaid plant (CSERQ15)¹

Byddwn yn argymhell pob gweithiwr iechyd i lenwi rhestr wirio CSERQ15. Ond, yn achos gweithwyr heb lawer o brofiad o ofyn y cwestiynau, neu wasanaethau o dan bwysau amser, efallai bydd yn fwy addas ateb cwestiynau CSERQ4.

Rhestr wirio CSERQ		DO/NA
1	Wedi aros allan dros nos neu'n hirach heb ganiatâd eich rhiant (rhieni) neu warcheidwad? (mynd ar goll)	
2	Beth yw oedran eich partner neu'r person(au) rydych yn cael rhyw gyda nhw? Oedran partner _____ Oedran cleient/claf _____ Gwahaniaeth oedran _____ Os bydd y gwahaniaeth oedran yn 4 blynedd neu fwy* ticio 'IE'. Sylwch, yn achos pobl ifanc 17 oed, yn absenoldeb unrhyw ffactorau risg eraill, gallai gwahaniaeth oedran hyd at 6 blynedd fod yn dderbyniol. (partner hyn)	
3	Eich partner yn eich rhwystro rhag gwneud pethau? (perthynas reoli)	
4	Ystyried ble byddwch yn mynd, neu i gael rhyw. Nid yn teimlo'n saff yno, neu yw eich rhieni neu warcheidwad yn poeni am eich diogelwch? (ymweld â llefydd sy'n enwog am ecsbloetiaeth rywiol)	
5	Byw gyda rhywun nad yw'n rhiant neu warcheidwad?	
6	Problemau cyffuriau, alcohol a/neu iechyd meddwl gan eich rhiant/gwarcheidwad?	
7	Methu, neu'n cael eich rhwystro rhag mynd allan gyda ffrindiau o'r un oedran?	
8	Dim llawer o hyder neu'n teimlo'n wael am eich hun?	
9	Wedi ystyried niweidio eich hun neu fynd heb fwyd er mwyn teimlo'n well am eich hun?	
10	Yfed alcohol er mwyn meddwi?	
11	Gweld rhywun am gyngor neu gymorth ychwanegol gyda gwaith ysgol?	
12	Wedi cael eich eithrio o'r ysgol neu aros i ffwrdd o'r ysgol heb ganiatâd?	
13	Unrhyw un yn eich niweidio'n gorfforol neu rywiol neu'n bygwth eich diogelwch?	
14	Wedi cael perthynas gyda rhywun rydych wedi cyfarfod ar y rhyngrwyd?	

Rhestr wirio CSERQ	DO/NA
15 Bechgyn/dynion: Wedi cael heintiad rhywiol? Merched/menywod: Wedi cael heintiad rhywiol, wedi bod yn feichiog neu wedi terfynu beichiogaeth? CAMAU: Mae cysylltiad clir rhwng risg uchel o CSE a a) 5+ ymateb positif i CSERQ15, neu b) 1+ ymateb positif wrth ddefnyddio CSERQ4. Felly, os byddwch yn croesi un o'r trothwyau hyn RHAIID gweithredu. FODD BYNNAG: Mae pob plentyn yn unigryw a'r amgylchiadau'n wahanol. Byddwn yn nodi elfennau risg newydd gydol yr amser. Rhaid dilyn dull holistaidd o drin risgiau CSE. Yn sicr, mae penderfynu cyfeirio ar drothwy is yn dderbyniol (ee CSERQ4 yn negyddol neu llai na 5 o'r cwestiynau CSERQ5-15 eraill yn bositif) yn arbennig os bydd pryderon eraill, am iechyd, lles neu ddiogelwch y plentyn neu aelodau eraill o'r teulu.	

Cyfeiriadau

¹ Cook, L. 2017. Child sexual exploitation risk questionnaire (CSERQ15). Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB). <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/95439>

² Mott, A; Price, L. 2016. Child Sexual Exploitation (CSE) Prevention Strategy for the NHS in Wales 2016 – 2019. Public Health Wales <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/91733#CSE>

³ Brown Brady G, Franklin A, et al. 2017. The use of tools and checklists to assess risk of child sexual exploitation. An exploratory study. Centre of expertise on child sexual abuse. <https://www.csacentre.org.uk/researchpublications/cse-risk-tools/>

